**Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Fyfyrwyr) (Cymru) (Diwygio) 2024**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Adran Addysg, Diwylliant a'r Gymraeg Llywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r Rheoliadau uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Fyfyrwyr) (Cymru) (Diwygio) 2024.

**Lynne Neagle AS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg**
**21 Mehefin 2024**

## 1. Disgrifiad

Mae Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Fyfyrwyr) (Cymru) (Diwygio) 2024 ('y Rheoliadau') yn diwygio Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Fyfyrwyr) (Cymru) 2017 i ddileu cyfeiriadau at Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ('CCAUC') ac ychwanegu cyfeiriadau at y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil ('y Comisiwn'). Maent hefyd yn dileu cyfeiriad at Gyngor Cyllido Addysg Uwch Lloegr ac yn ychwanegu cyfeiriad at y Swyddfa Fyfyrwyr.

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Dim.

## 3. Cefndir deddfwriaethol

Mae'r pŵer i wneud y Rheoliadau hyn yn arferadwy gan Weinidogion Cymru o dan adran 253A o Ddeddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009.

Diffinnir gwybodaeth am fyfyrwyr yn is-adran (6) o adran 253A o Ddeddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009 fel gwybodaeth sy'n ymwneud ag unigolyn sy'n ceisio cael, neu sydd wedi cael, "cymhwyster rheoleiddiedig" fel y'i diffinnir gan adran 130 o'r Ddeddf honno, neu "gymhwyster perthnasol" fel y'i diffinnir gan adran 30 o Ddeddf Addysg 1997.

Caiff personau yng Nghymru ddarparu gwybodaeth am fyfyrwyr mewn perthynas â myfyrwyr sydd, neu a oedd, wedi ymrestru gyda hwy (h.y. ysgolion, sefydliadau addysg bellach, darparwyr dysgu seiliedig ar waith neu ddarparwyr dysgu eraill) i Weinidogion Cymru neu goladydd gwybodaeth sy'n gweithredu ar eu rhan, neu i berson neu gategori o berson a ragnodir gan Weinidogion Cymru mewn rheoliadau.

Sefydlwyd y Comisiwn fel endid cyfreithiol ar 15 Rhagfyr 2022 trwy gychwyn adran 1 o Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 (fel y darparwyd ar ei gyfer gan Orchymyn Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 (Cychwyn Rhif 1) 2022).

Sefydlwyd y Comisiwn yn llawn ar 4 Medi 2023, pan ddechreuodd y Prif Swyddog Gweithredol a'r pum aelod cyffredin yn eu swyddi ac yn dilyn gwneud Gorchymyn Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 (Cychwyn Rhif 2 a Darpariaeth Ddarfodol) 2023.

Bydd y Comisiwn yn dod i rym ar 1 Awst 2024.

Mae'r Rheoliadau ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol.

## 4. Diben y ddeddfwriaeth a’r effaith y bwriedir iddi ei chael

Bydd y Comisiwn yn gyfrifol am strategaeth, cyllido a goruchwylio'r sectorau ôl-16 canlynol yng Nghymru:

- addysg bellach, gan gynnwys colegau a chweched dosbarth ysgolion;
- addysg uwch, gan gynnwys ymchwil ac arloesi;
- addysg oedolion a dysgu oedolion yn y gymuned;
- prentisiaethau.

Bydd y Rheoliadau yn caniatáu i wybodaeth am y cymwysterau a gyflawnir gan fyfyrwyr gael ei rhannu â'r Comisiwn fel person rhagnodedig yn Atodlen 2 i'r Rheoliadau. Gwnaed gwelliannau hefyd i ddiweddaru cyfeiriadau at Gyngor Cyllido Addysg Uwch Lloegr, sydd wedi'i ddisodli gan y Swyddfa Fyfyrwyr.

## 5. Ymgynghori

Ni chynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. Mae'r diwygiadau i'r offeryn statudol hwn yn dechnegol eu natur ac maent yn ganlyniadol i ddarpariaethau yn y Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil, ac nid ydynt yn cynrychioli unrhyw newidiadau mawr i bolisi. Mae'r dull hwn yn unol ag arferion safonol Llywodraeth Cymru mewn perthynas ag ymgynghori ar is-ddeddfwriaeth ddrafft.

## 6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

Gan fod y Rheoliadau hwn yn gwneud diwygiadau ffeithiol i ddiweddaru is-ddeddfwriaeth ac nad yw’r diwygiadau’n newid y polisi (na’i effaith) mewn unrhyw ffordd arwyddocaol na sut y caiff ei gymhwyso mewn sefyllfa benodol, nid oes angen Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Mae hyn yn gyson â'r polisi a nodir yng nghod ymarfer Gweinidogion Cymru ar gyfer cynnal asesiadau effaith rheoleiddiol ar gyfer is-ddeddfwriaeth. Fodd bynnag, roedd yr asesiad effaith rheoleiddiol a wnaed i gyd-fynd â Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 adeg ei chyflwyno i'r Senedd, yn asesu'r costau a'r manteision posibl sy'n gysylltiedig â sefydlu'r Comisiwn.